



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

1 Awst 2021 i 31 Gorffennaf 2022

Cyflwyniad

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi bod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ers 1 Ebrill 2018. Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar y cyfnod rhwng Awst 1 2021 a 31 Gorffennaf 2022, sef blwyddyn ariannol y sefydliad.

Ers i Safonau'r Gymraeg ddod i rym, mae'r Brifysgol wedi datblygu sawl gweithdrefn newydd ac wedi cynnig hyfforddiant i staff er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Safonau. Mae llawer o'r gweithdrefnau hyn wedi parhau, yn eu hanfod, o'r rhai a weithredwyd fel rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae'r Brifysgol wedi parhau i ymateb i'r heriau ynghylch COVID 19. Dechreuodd y Brifysgol dreialu gweithio'n hybrid yn ystod y flwyddyn. Er bod llawer o weithgarwch staff a myfyrwyr bellach wedi dychwelyd i'r campysau, mae nifer o aelodau o staff yn parhau i weithio'n rhithiol dros Microsoft Teams. Fe wnaeth y Brifysgol barhau i fonitro cydymffurfiaeth. Dangosodd canlyniadau'r monitro ni fu lleihad yn y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg na chwaith yn y lefel o gydymffurfiaeth â'r Safonau.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i graffu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg a Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol.

Cyfleu Gofynion Safonau'r Gymraeg

Cynigiwyd hyfforddiant i staff o bob rhan o'r Brifysgol i egluro cefndir statudol y Safonau a'r camau a gymerwyd i gyrraedd cydymffurfiaeth. Yn ogystal, fel rhan o'r ymarferion monitro mewnol, mae'r Uned Gymraeg wedi cyfarfod ag adrannau ar draws y Brifysgol i gyfathrebu gofynion y Safonau ac amlinellu unrhyw feysydd i'w datblygu.

Mae adran yr Uned Gymraeg o wefan y Brifysgol yn cynnwys tudalennau penodol ar Safonau'r Gymraeg a sawl canllaw, gan gynnwys ar ateb y ffôn, gohebiaeth a negeseuon allan o'r swyddfa. Mae polisi cynhwysfawr y Brifysgol ar yr iaith Gymraeg hefyd ar gael ar y wefan.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Gohebiaeth Ysgrifenedig (Safonau 1 - 7)

Mae'r Brifysgol yn cychwyn pob gohebiaeth gorfforaethol ac i fyfyrwyr yn ddwyieithog oni bai bod dewis iaith y derbynnydd yn hysbys. Mae'r Brifysgol yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ac ychwanegwyd y cymal canlynol at holl ohebiaeth swyddogol y Brifysgol ac at bob e-bost a anfonwyd gan wasanaethau proffesiynol ac ysgolion academiaidd.

Mae Met Caerdydd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

Cyfathrebu dros y Ffôn (Safonau 8 - 21)

Mae'r staff sy'n gweithio ar brif linellau ffôn y Brifysgol yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a lluniwyd a dosbarthwyd cyfarwyddiadau i'r staff ar y Prif Switsfyrddau a'r llinell Gwasanaethau Gwybodaeth. Mae canllaw cyffredinol ar sut i ddelio â galwadau a wneir yn Gymraeg ar gael ar ein gwefan.

Rhoddyd hyfforddiant i staff ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog a sut i ddelio ag ymholiadau ffôn Cymraeg.

Cyfarfodydd (Safonau 24 - 34)

Mae'r Uned Gymraeg yn cefnogi unrhyw wasanaeth proffesiynol neu ysgol academiaidd wrth drefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw gyfarfodydd lle defnyddir y Gymraeg gan unrhyw gyfranogwr/cyfranogwyr gwadd. Oherwydd bod bron pob cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y pandemig wedi bod yn rhai rhithiol, mae'r Brifysgol wedi caniatáu gollyngiad arbennig i ddefnyddio Zoom pan fydd angen cyfieithu ar y pryd. Mae Zoom mewn sefyllfa well o lawer i ganiatáu cyfieithu ar y pryd na Microsoft Teams ac mae'r Uned Gymraeg wedi derbyn adborth cadarnhaol gan y rhai sydd wedi cymryd rhan.

Digwyddiadau Cyhoeddus (Safonau 35 - 38)

Er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu deunydd cyhoeddusrwydd at ddefnydd y cyhoedd, trafodwyd y Safonau hyn gyda thîm digwyddiadau'r Brifysgol. Cynhyrchir unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchir ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.

Darlithoedd Cyhoeddus (Safonau 40 - 40A)

Mae Tîm Digwyddiadau'r Brifysgol yn gyfrifol am y cyhoeddusrwydd ar gyfer darlithoedd cyhoeddus ac maent yn ymwybodol o ofynion safonau'r Gymraeg.

Ni chynhaliwyd unrhyw ddarlithoedd cyhoeddus yn ystod y cyfnod a gwmpasir gan yr adroddiad hwn.

Seremonïau Graddio (Safonau 41 - 42)

Trefnwyd seremonïau graddio yn ystod y cyfnod a gwmpasir gan yr adroddiad am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig. Mae'r wybodaeth am drefniadau seremonïau graddio'r Brifysgol yn ddwyieithog. Gofynnir i unrhyw siaradwr anrhydeddus yn y seremoni a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Cyhoeddiadau (Safonau 43 - 52)

Sefydlwyd gweithdrefnau ers tro i sicrhau bod unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd neu fyfyrwyr yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog, ac na fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran maint, ansawdd a chywirdeb. Mae'r gweithdrefnau hyn yn parhau i gael eu cymhwyso gan staff wrth ddrafftio unrhyw gyhoeddiadau.

Ffurflenni (Safonau 53 - 54)

Mae'r staff yn ymwybodol y dylid cynhyrchu pob ffurflen at ddefnydd myfyrwyr a'r cyhoedd, ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau esboniadol, yn ddwyieithog. Os cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ein harfer yw anfon y ffurflenni yn dewis iaith y myfyriwr neu'r aelod o'r cyhoedd.

Y Wefan (Safonau 55 - 59)

Cyhoeddwyd gwefan gwbl ddwyieithog ym mis Chwefror 2020. Mae golygwyr y we ar ym mhob adran y Brifysgol wedi derbyn diweddariad ar sut i olygu'r wefan, tudalennau Cymraeg a Saesneg er mwyn sicrhau bod y ddwy fersiwn yn cyfateb ym mhob ffordd. Mae'r Brifysgol yn y broses o bwrcasu gwefan newydd. Mae cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn rhan annatod o'r broses tendro, a bydd hyn yn sicrhau bod y wefan newydd yn hollol ddwyieithog.

Meddalwedd Gwirio Sillafu a Gramadeg (Safon 60)

Mae meddalwedd Cysgliad wedi'i gosod ar holl offer Met Caerdydd yn ddiodyn ac mae ar gael i fyfyrwyr ei gosod ar ddyfeisiau personol trwy 'Apps anywhere'. Mae hwn ar gael drwy wefan y Brifysgol a mewnrwyd y myfyrwyr. Darperir meddalwedd cyfrifiadurol i fyfyrwyr hefyd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg gyda Microsoft Office 365.

Apiau (Safon 61)

Mae Met Caerdydd yn sicrhau bod pob ap newydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Mae ap Chwaraeon Met Caerdydd ar gael yn ddwyieithog ac mae 'canllaw poced' ap MyCardiffMet hefyd ar gael yn ddwyieithog, ond nid yr ap llawn. Mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at gael yr ap cyfan yn ddwyieithog.

Cyfyngau Cymdeithasol (Safonau 62 - 63)

Mae'r Brifysgol wedi dynodi cyfrifon adrannol neu gorfforaethol ar gyfer ein gwasanaethau proffesiynol a'n hysgolion academiaidd. Mae'r cyfrifon hyn yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae cydymffurfiad â'r Safonau hyn yn cael eu monitro deirgwaith y flwyddyn fel rhan o broses monitro'r Brifysgol.

Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 64)

Mae peiriannau hunanwasanaeth y Brifysgol (peiriannau hunanwasanaeth y llyfrgell a pheiriannau parcio ar y safle ar draws dau gampws y Brifysgol) yn gweithredu'n ddwyieithog.

Arwyddion (Safonau 65 - 67)

Cynhyrchir arwyddion newydd a'r rhai sy'n cael eu hadnewyddu, yn ddwyieithog. Gosodir y testun Cymraeg fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Caiff yr holl arwyddion eu cyfieithu gan Wasanaeth Cyfieithu'r Brifysgol.

Derbynfeydd (Safonau 68 - 72)

Mae yna arwyddion ym mhrif dderbynfeydd ein campysau'n dweud bod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Mae'r staff dwyieithog sy'n gweithio yno yn gwisgo laniards i ddangos hyn.

Hysbysiadau (Safonau 73 - 74)

Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu pob hysbysiad yn ddwyieithog.

Grantiau (Safonau 75 - 79)

Mae pob dogfen sy'n ymwneud â grantiau neu geisiadau cymorth ariannol ar gael yn Gymraeg. Nid yw unrhyw geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.

Contractau a ddyfarnwyd i drydydd parti (Safonau 80 - 84)

Cyhoeddir tendrau yn Gymraeg os yw pwnc y tendr am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg. Ar gyfer y tendrau hynny a gyflwynir yn Gymraeg, mae'r holl

hysbysiadau am ddyfarniadau i gyflenwyr hefyd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Nid yw'r Brifysgol yn trin tendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendrau a gyflwynir yn Saesneg.

Hysbysebu a Hybu (Safonau 85 - 86)

Cynhyrchir yr holl gyhoeddusrwydd a'r dogfennau a gynhyrchwn i hysbysebu ein gwasanaethau yn ddwyieithog.

Hunaniaeth Gorfforaethol (Safonau 87)

Mae hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn gwbl ddwyieithog.

Cyfleoedd Dysgu (Safonau 88 - 89)

O ran y cyfleoedd dysgu sy'n agored i'r cyhoedd ac nad ydynt yn rhan o gwrs neu a fydd yn arwain at berfformiad, gallwn gyfeirio at y sesiynau a ddarperir gan Ysgol Gelf Agored Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn casglu data ar ddewisiadau mynychwyr y dosbarth o ran iaith yr ystafell ddosbarth er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Asesiadau (Safonau 90 - 90A)

Mae myfyrwyr y Brifysgol wedi gallu cyflwyno asesiadau yn y Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg ers sawl blwyddyn a sefydlwyd gweithdrefnau cadarn i hwyluso hyn. Mae'r rhain yn cynnwys penodi tiwtor cyfrwng Cymraeg o fewn yr un adran i farcio'r gwaith ac os nad yw hyn yn bosibl, cyfieithir yr asesiad i'r Saesneg cyn cael ei farcio. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn gyfarwydd iawn â chyfieithu asesiadau academaidd. Mae papurau arholiad cyfrwng Saesneg hefyd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg i alluogi myfyrwyr i sefyll yr arholiad yn Gymraeg os dymunant. Gwneir hyn yn unol â'r gofynion a ragnodir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

System Annerch Gyhoeddus (Safon 91)

Nid yw'r Brifysgol yn gweithredu system annerch gyhoeddus.

Llety Myfyrwyr (Safonau 92 - 92A)

Mae tîm llety'r Brifysgol yn rhoi'r dewis i fyfyrwyr o fyw gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg. Cynigir hyn fel rhan o'r broses o ymgeisio am Neuaddau Preswyl.

Tiwtor Personol (Safon 93)

Mae'r Brifysgol yn dyrannu tiwtoriaid personol sy'n siarad Cymraeg i bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn ddiodyn. Os nad oes modd dyrannu tiwtor o'r ysgol academaidd berthnasol, yna darperir tiwtor o ysgol arall.

Safonau Lluio Polisi

Penderfyniadau Polisi (Safonau 94 - 96)

Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i asesu canlyniadau ieithyddol polisïau a mentrau newydd gyda'r bwriad o hwyluso'r Gymraeg lle bo modd ac mae'r Uned Gymraeg yn rhan o Grŵp Adolygu Polisïau'r Brifysgol.

Cynhelir Asesiad Effaith polisïau a mentrau newydd gan is-grŵp Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Met Caerdydd ac mae'n cael ei gadarnhau gan y pwyllgor ei hun. Mae Pennaeth y Gymraeg yn craffu ar bob Asesiad Effaith fel aelod o'r is-grŵp a'r Pwyllgor.

Er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn elfen ganolog o unrhyw waith datblygu polisi, mae wedi cael ei chynnwys ynghyd â'r naw nodwedd warchoddedig a nodwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn sicrhau yr ystyrir unrhyw effaith ar y Gymraeg ar draws y sefydliad.

Ymgynghori (Safonau 97 - 99)

Yn ystod prosesau ymgynghori ar benderfyniadau polisi, mae'r Brifysgol yn ceisio barn am yr effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar yr iaith Gymraeg drwy'r broses Asesiad Effaith.

Dyfarnu Grantiau (Safon 100)

Ar ôl ystyried i ba raddau y mae'r Brifysgol yn dyfarnu grantiau, ac ar ôl ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg, penderfynwyd nad yw'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cyflawni camau perthnasol i ofyn am bolisi ar gyfer yr elfen hon.

Comisiynu Ymchwil (Safonau 101 - 103)

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaeth y Brifysgol gomisiynu ymchwil i helpu gyda phenderfyniad polisi. Cynhaliodd y Brifysgol ymchwil yn fewnol ac yn allanol i'w helpu i wneud penderfyniadau polisi Gwasanaethau Pobl. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, defnyddiwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, lle rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwahoddwyd cynrychiolydd o Rwydwaith Cymraeg i Staff i ymuno â'r Grŵp Adolygu Polisi. Rhoddodd hyn fewnwelediad gwerthfawr i'r Brifysgol i'w galluogi i wneud penderfyniadau polisi a oedd yn rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Fe wnaeth hefyd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyrsiau Academaidd (Safon 104)

Mae ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth ddatblygu neu dynnu'n ôl cyrsiau gradd eisoes yn weithdrefn sefydledig o fewn y Brifysgol.

Safonau Gweithredu

Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn y Sefydliad (Safon 105)

Mae'r Brifysgol wedi datblygu polisi cynhwysfawr ar yr iaith Gymraeg sydd ar gael i'w ddarllen ar wefan y Brifysgol. Mae'r ddogfen bolisi hon yn cynnwys gofyniadau'r Safonau, ynghyd â rhai pwyntiau polisi ychwanegol ac yn eu sefydlu mewn cyd-destun sefydliadol. Cymeradwywyd y polisi gan Bwyllgor Defnyddio'r Gymraeg y Brifysgol.

Cyflogaeth (Safonau 106 - 111)

Mae'r Brifysgol yn defnyddio system ar-lein ar gyfer ceisiadau swyddi a darperir y ffurflen gais ar-lein. Gellir defnyddio'r system yn Gymraeg ac mae'r ffurflen gais yn gofyn yn benodol am ddewis iaith yr ymgeisydd ar gyfer y cyfweiliad/unrhyw ddull arall o asesu. Mae hefyd yn caniatáu i ymgeiswyr, os cânt eu penodi'n llwyddiannus, i ddewis a ydynt am dderbyn y canlynol yn Gymraeg:

- Contract cyflogaeth
- Gohebiaeth bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth
- Dogfennau sy'n amlinellu eu hanghenion hyfforddiant
- Dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad
- Dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi eu cynllun gyrfa.

Mae'r iaith a ddewisir gan staff ar gyfer gohebiaeth cyflogaeth yn cael ei chofnodi ar iTrent, system adnoddau dynol y Brifysgol. Lle nodir hynny, bydd Gwasanaethau Pobl yn gohebu yn dewis iaith yr aelod o staff.

Mae adnodd hunanwasanaeth gweithwyr y Brifysgol, FyMet, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall gweithwyr ddiwygio/newid eu dewisiadau yn yr adnodd hunanwasanaeth.

Polisi Adnoddau Dynol (Safonau 112 - 118)

Mae holl bolisiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â materion Adnoddau Dynol (gan gynnwys y rhai a amlinellir o fewn y Safonau) ar gael yn ddwyieithog ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan y Brifysgol yn yr Hyb Polisiau.

Cwynion gan/am staff (Safonau 119 - 122)

Mae gan aelodau staff y Brifysgol yr hawl i wneud cwyn ffurfiol ac ymateb i gwynion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Disgyblu Staff (Safonau 123 - 126)

Mae gan staff yr hawl i ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol. Mae'r weithdrefn ddisgyblu yn nodi'r hawl hon a'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod disgyblu.

Sgiliau Iaith Staff (Safonau 127 ac 134)

Mae gan bob aelod o staff y dewis i ddefnyddio rhyngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron.

Mae meddalwedd Cysgliad wedi'i gosod ar holl offer Met Caerdydd yn ddiodyn ac mae ar gael i staff ei gosod ar ddyfeisiau personol trwy 'Apps anywhere'. Mae hwn ar gael drwy wefan y Brifysgol. Darperir meddalwedd cyfrifiadurol i staff hefyd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg gyda Microsoft Office 365.

Mae rhyngwynebau Cymraeg hefyd yn bodoli ar gyfer y llyfrgell.

Cesglir data am sgiliau iaith Gymraeg y staff wrth iddynt wneud cais am swydd gyda'r Brifysgol a chofnodir hyn ar gofnod y staff pan fyddant yn cael eu penodi.

Mewnrwyd (Safonau 128 - 133)

Mae mewnrwyd staff y Brifysgol yn cynnwys togl iaith sy'n galluogi staff i ddewis eu dewis iaith. Mae'r rhyngwyneb a dewislenni hefyd ar gael yn ddwyieithog, a'r mwyafrif o'r tudalennau'n ddwyieithog. Mae'r Uned Gymraeg yn gweithio gyda'r meysydd perthnasol i sicrhau bod pob tudalen yn ddwyieithog cyn gynted â phosibl.

Mae gan yr Uned Gymraeg safle ar fewnrwyd y staff sy'n rhoi gwybodaeth i staff am wasanaethau a deunydd cymorth Cymraeg, yn ogystal â chymorth ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg.

Hyfforddiant Staff (Safonau 135 - 137)

Cynhyrchir holl ddeunydd ac adnoddau polisiâu ac arweiniad ar gyfer sefydlu, recriwtio ac arfarniadau yn ddwyieithog ac mae'r Brifysgol yn cynnig yr hyfforddiant hwn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith yn y Brifysgol. Mae amrywiaeth o ddogfennau canllaw dwyieithog ar gael i helpu'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo modd. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg, y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwaith.

Hyfforddiant Iaith (Safonau 138 - 141)

Mae'r Brifysgol yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae gan staff yr hawl i fynychu dosbarthiadau Cymraeg Gwaith yn rhad ac am ddim ac yn ystod oriau gwaith, a hwylusir gan y Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion.

Crynodeb o'r rhaglen (staff sydd wedi gorffen y gwersi ar ddiwedd y flwyddyn):

Lefel astudio	Nifer y staff
Mynediad Hunan-Astudio	6
Mynediad	7
Sylfaen	14
Canolradd	10
Uwch	10
Cyfanswm	47

Darperir amrywiaeth o weithgareddau atodol yn rhad ac am ddim hefyd, gan gynnwys sesiynau 'coffi a chlonc' wythnosol, seminarau a digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd, a grŵp darllen y wasg. Mae pob dysgwr yn cael y cyfle i gwblhau Prosiect Personol 'Cymraeg Gwaith' yn ystod y flwyddyn academaidd, lle maent yn gweithio ar wella defnydd, gwelededd neu ddealltwriaeth o'r Gymraeg yn eu gweithle penodol eu hunain.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, sefydlodd y Brifysgol Rwydwaith Cymraeg i Staff ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n dysgu'r iaith. Mae gan y rhwydwaith grŵp ar Teams ac mae'n cynnal digwyddiadau cymdeithasol sy'n caniatáu i staff rhyngweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob rhan o'r Brifysgol wedi cael cynnig hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gan yr Uned Gymraeg, sydd hefyd yn darparu hyfforddiant ar Safonau'r Gymraeg i Gydlynwyr y Gymraeg ar draws y Brifysgol.

Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo wrth ymsefydlu staff ac mewn erthyglau newyddion ar y fewnwyd.

Llofnodion e-bost a bathodynau (Safonau 142 - 144A)

Anogir staff i ddefnyddio llofnod electronig dwyieithog sydd hefyd yn datgan eu bod yn croesawu e-byst yn Gymraeg, ac sy'n dangos eu sgiliau Cymraeg. Mae canllawiau dwyieithog ar gael i helpu staff gyda hyn.

Disgwylir i'r staff ddarparu neges ddwyieithog ar gyfer eu negeseuon 'allan o'r swyddfa'. Mae canllawiau ar gael ar ein gwefan a'n mewnwyd ar sut i wneud hyn.

Mae laniards a bathodynau pin 'laith Gwaith' a 'Dysgwr' ar gael i staff o dderbynfeydd campws y Brifysgol. Mae laniards hefyd ar gael o Stiwdios Argraffu'r ddau gampws. Mae'r rhain wedi'u hyrwyddo'n eang i staff.

Swyddi (Safonau 145 - 149)

Mae rheolwyr mewn gwasanaethau proffesiynol ac ysgolion academaidd yn gyfrifol am asesu swyddi newydd a gwag o ran gofynion y Gymraeg. Mae pob swydd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'Hanfodol' neu'n 'Ddymunol' a hysbysebir pob swydd yn ddwyieithog.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio system ar-lein ar gyfer ceisiadau swyddi a darperir y ffurflen gais (sy'n gofyn am ddewis iaith cyfweliad, asesu a gohebiaeth) a'r ddogfennaeth berthnasol ar-lein. Mae'r system hon yn gwbl ddwyieithog.

Arwyddion (Safonau 150 - 153)

Cynhyrchir arwyddion newydd a'r rhai sy'n cael eu hadnewyddu, yn ddwyieithog. Gosodir y testun Cymraeg fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Caiff yr holl arwyddion eu cyfieithu gan Wasanaeth Cyfieithu'r Brifysgol.

Gwneir cyhoeddiadau uwch-seinydd dwyieithog yn ffeiriau UCAS, a gynhelir ar Gampws Cyncoed.

Safonau Cadw Cofnodion

Cwynion (Safonau 154 - 156)

Pwrpas Gweithdrefn Gwyno'r Brifysgol yw darparu llwybr ffurfiol y gall myfyriwr, aelod o staff neu'r cyhoedd, ddod â chwyn i sylw'r Brifysgol drwyddo. Mae'r weithdrefn hon ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cyflwynir adroddiad blynyddol ffurfiol ar gwynion yn flynyddol i'r Bwrdd Academaidd a Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data monitro gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi cwyno yn ystod y flwyddyn, nifer y cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg fel mater ac unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r broses fonitro.

Er mwyn cefnogi unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Pennaeth y Gymraeg wedi cael hyfforddiant ar sut i ymchwilio i gŵyn.

Y llynedd, gwnaethpwyd cwyn gan fyfyrwr, a hynny'n uniongyrchol i'r Comisiynydd. Fe wnaeth ymchwiliadau dilynol barhau i gyfnod adrodd yr adroddiad hwn. Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad i weld os oedd y Brifysgol wedi methu cydymffurfio â'r Safonau perthnasol. Daeth i'r canlyniad bod y Brifysgol wedi methu cydymffurfio â Safon 4 (ynghylch gohebiaeth ysgrifenedig) '*...ar y sail ei bod wedi gohebu â myfyriwr cwrs TAR cyfrwng Cymraeg yn Saesneg yn unig ar 22 Hydref 2020*'. Fe wnaeth archwiliad mewnol y Brifysgol gyrraedd yr un casgliad. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Brifysgol gymryd y camau canlynol:

- Cynnal adolygiad llawn o'i drefniadau ar gyfer gohebu â myfyrwyr ynglŷn â materion sydd yn ymwneud â'u cyrsiau
- Atgoffa staff o ofynion Safonau'r Gymraeg a chynnig arweiniad ar sut i gydymffurfio â'r Safon benodol
- Darparu tystiolaeth ysgrifenedig i fodloni'r Comisiynydd ei fod wedi cymryd y camau uchod o fewn 3 mis

Fe wnaeth y Brifysgol ymateb yn llawn i'r camau hyn. Roedd y Comisiynydd yn fodlon gydag ymateb y Brifysgol a chaewyd yr achos ym mis Rhagfyr 2021.

Ni wnaed unrhyw gwyn ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg eleni.

Polisiâu (Safon 157)

Defnyddiwyd yr offeryn ar gyfer asesu effaith ar yr iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, y Ffurflen Asesiad Effaith, 3 gwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

Sgiliau Ieithyddol Staff (Safon 158)

Anfonwyd arolwg at bob aelod o staff yn ystod y flwyddyn adrodd 2017-2018, gan ofyn i'r staff asesu eu gallu yn y Gymraeg a rhai cwestiynau ychwanegol am eu hawydd i ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu'r iaith. Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff roi gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg i'r Brifysgol. Cwblhaodd cyfanswm o **816** o aelodau staff yr arolwg, bron i 60% o holl staff Met Caerdydd.

Y gallu i siarad Cymraeg

Ateb	%	Cyfanswm	Academaidd	Proffesiynol	Y ddau
Dim gallu.	62.99%	514	163	316	35
Gallaf gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg.	23.28%	190	54	119	17
Gallaf gynnal sgysiau syml yn ymwneud â gwaith.	2.33%	19	7	12	0
Gallaf sgwrsio mewn rhai sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith.	1.96%	16	4	12	0
Gallaf sgwrsio yn y rhan fwyaf o sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith.	2.45%	20	5	15	0
Yr wyf yn rhugl.	6.99%	57	31	22	4
Cyfanswm	100%	816	264	496	56

Y gallu i ddeall Cymraeg

Ateb	%	Cyfanswm	Academaidd	Proffesiynol	Y ddau
Dim gallu.	44.49%	363	127	214	22
Gallaf ddeall rhannau o sgwrs sylfaenol.	30.76%	251	67	161	23
Gallaf ddeall sgysiau sylfaenol am bynciau bob dydd.	12.01%	98	25	66	7
Gallaf ddeall sgysiau arferol sy'n gysylltiedig â gwaith.	2.82%	23	7	16	0
Gallaf ddeall y rhan fwyaf o sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith.	1.84%	15	5	10	0
Gallaf ddeall pob sgwrs sy'n gysylltiedig â gwaith.	8.09%	66	33	29	4
Cyfanswm	100%	816	264	496	56

Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg

Ateb	%	Cyfanswm	Academaidd	Proffesiynol	Y ddau
Dim gallu.	66.54%	543	175	330	38

Gallaf ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd.	20.47%	167	44	109	14
Gallaf baratoi gohebiaeth syml yn ymwneud â gwaith.	3.92%	32	10	21	1
Gyda gwiriad, gallaf baratoi deunydd rheolaidd sy'n gysylltiedig â gwaith.	2.45%	20	7	12	1
Gallaf baratoi'r rhan fwyaf o waith ysgrifenedig yn Gymraeg.	2.21%	18	7	10	1
Gallaf baratoi deunydd ysgrifenedig ar gyfer yr holl faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.	4.41%	36	21	14	1
Cyfanswm	100%	816	264	496	56

Y gallu i ddarllen Cymraeg

Ateb	%	Cyfanswm	Academaidd	Proffesiynol	Y ddau
Dim gallu.	43.50%	355	126	209	20
Gallaf ddarllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol gyda dealltwriaeth.	32.35%	264	72	169	23
Gallaf ddarllen deunydd syml ar bynciau bob dydd gyda dealltwriaeth.	10.05%	82	18	56	8
Gallaf ddarllen rhywfaint o ddeunydd arferol sy'n gysylltiedig â gwaith gyda chymorth e.e. geiriadur.	4.41%	36	10	25	1
Gallaf ddarllen y rhan fwyaf o ddeunydd sy'n gysylltiedig â gwaith.	3.19%	26	9	15	2
Gallaf ddeall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith yn llawn.	6.50%	53	29	22	2
Cyfanswm	100%	816	264	496	56

Ers cynnal yr arolwg, mae'r Brifysgol wedi parhau i gasglu data ar sgiliau iaith aelodau staff newydd (**gweler isod**). Nid yw systemau'r Brifysgol ar hyn o bryd yn ein galluogi

i nodi nac felly i dynnu'r data ar gyfer y staff sydd wedi gadael y Brifysgol ers 2018 o'r data uchod. Felly nid yw'r data uchod yn cynnig darlun cywir o sgiliau iaith staff y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu gweithrediad i'r system gofnodion staff, sef system hunanwasanaeth, a fydd yn galluogi i staff diweddarau eu sgiliau Cymraeg yn unol â lefelau Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd. Bydd hyn hefyd yn galluogi dysgwyr sy'n ymgymryd â gwersi Cymraeg drwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith i ddiweddarau eu lefelau wrth iddynt orffen eu cyrsiau. Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn y cyfnod adrodd nesaf.

Y gallu i siarad Cymraeg

Ateb	%	Cyfanswm
Dim gallu.	69.17%	184
Gallaf gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg.	15.04%	40
Gallaf gynnal sgysiau syml yn ymwneud â gwaith.	2.26%	6
Gallaf sgwrsio mewn rhai sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith.	1.13%	3
Gallaf sgwrsio yn y rhan fwyaf o sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith.	2.26%	6
Yr wyf yn rhugl.	10.15%	27
Cyfanswm	100%	266

Y gallu i ddeall Cymraeg

Ateb	%	Cyfanswm
Dim gallu.	59.02%	157
Gallaf ddeall rhannau o sgwrs sylfaenol.	21.05%	56
Gallaf ddeall sgysiau sylfaenol am bynciau bob dydd.	5.64%	15
Gallaf ddeall sgysiau arferol sy'n gysylltiedig â gwaith.	1.13%	3
Gallaf ddeall y rhan fwyaf o sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith.	1.88%	5
Gallaf ddeall pob sgwrs sy'n gysylltiedig â gwaith.	11.28%	30
Cyfanswm	100%	266

Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg

Ateb	%	Cyfanswm
Dim gallu.	72.93%	194

Gallaf ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd.	13.53%	36
Gallaf baratoi gohebiaeth syml yn ymwneud â gwaith.	0.38%	1
Gyda gwiriad, gallaf baratoi deunydd rheolaidd sy'n gysylltiedig â gwaith.	2.63%	7
Gallaf baratoi'r rhan fwyaf o waith ysgrifenedig yn Gymraeg.	2.26%	6
Gallaf baratoi deunydd ysgrifenedig ar gyfer yr holl faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.	8.27%	22
Cyfanswm	100%	266

Y gallu i ddarllen Cymraeg

Ateb	%	Cyfanswm
Dim gallu.	59.02%	157
Gallaf ddarllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol gyda dealltwriaeth.	19.92%	53
Gallaf ddarllen deunydd syml ar bynciau bob dydd gyda dealltwriaeth.	6.02%	16
Gallaf ddarllen rhywfaint o ddeunydd arferol sy'n gysylltiedig â gwaith gyda chymorth e.e. geiriadur.	2.26%	6
Gallaf ddarllen y rhan fwyaf o ddeunydd sy'n gysylltiedig â gwaith.	1.88%	5
Gallaf ddeall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith yn llawn.	10.90%	29
Cyfanswm	100%	266

Hyfforddiant Staff (Safon 159)

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni ofynnodd unrhyw aelod o staff am gael hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Swyddi (Safonau 161 - 162)

Yn ystod y cyfnod adrodd, hysbysebwyd 423 o swyddi, o'r rhain:

- Hysbysebwyd 13 swydd lle'r oedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol.
- Hysbysebwyd 410 o swyddi lle'r oedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol.
- Hysbysebwyd 0 swydd lle barnwyd nad oedd angen sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd.

Noder bod y ffigurau hyn hefyd yn cynnwys swyddi a ail-hysbysebwyd.

Safonau Atodol

Dogfen Safonau'r Gymraeg (Safonau 163, 169, 175, 181)

Mae'r Brifysgol wedi datblygu polisi cynhwysfawr ar yr iaith Gymraeg sydd ar gael i'w ddarllen ar wefan y Brifysgol. Mae'r ddogfen bolisi hon yn cynnwys gofyniadau'r Safonau ynghyd â rhai pwyntiau polisi ychwanegol ac yn eu sefydlu mewn cyd-destun sefydliadol. Cymeradwywyd y polisi gan Bwyllgor Defnyddio'r Gymraeg y Brifysgol.

Gweithdrefn Gwyno (Safonau 164, 170, 176)

Gall cwynion a dderbynnir gan y sefydliad ynghylch cydymffurfio â'r Safonau a chwynion ynglŷn â'r Gymraeg gael eu gwneud drwy Weithdrefn Gwyno'r Brifysgol sydd ar gael ar ein gwefan. Gellir gwneud cwynion drwy ddefnyddio'r ffurflen electronig ryngweithiol ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Brifysgol drwy e-bost, llythyr neu dros y ffôn. Mae Polisi Iaith Gymraeg y Brifysgol yn amlinellu bod gan staff yr hawl i ymwneud â'r broses gwynion yn Gymraeg.

Monitro (Safonau 165, 171, 177)

Mae'r Swyddog Hyrwyddo a Hwyluso'r Gymraeg ynghyd â Phennaeth y Gymraeg yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio gwasanaethau a darpariaeth cyfrwng Gymraeg ar draws Met Caerdydd.

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd Safonau'r Gymraeg. Mae'n bwyllgor uwch reoli sy'n cyfarfod deirgwaith yn ystod y flwyddyn academiaidd, ac yn derbyn adroddiadau gan yr Uned Gymraeg ar weithredu a monitro Safonau'r Gymraeg. Mae Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Bwyllgor Cynllunio Strategol y Brifysgol ac i Fwrdd y Llywodraethwyr.

Mae Polisi Iaith Gymraeg y Brifysgol yn nodi'r trefniadau ar gyfer goruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae canllawiau ar gyrraedd y Safonau ar gael ar ein gwefan ar gyfer yr holl staff.

Adroddiad Blynyddol (Safonau 166, 168, 172, 178, 180, 182)

Ar gyfer yr adroddiad hwn, gofynnwyd i'r Brifysgol adrodd ar y cyfnod rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022. Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- nifer y cwynion a dderbyniwyd

- nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg
- nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd yn Gymraeg
- nifer y swyddi newydd a gwag a'u categori ynglŷn â gofynion yr iaith Gymraeg.

Dogfen Cydymffurfio (Safonau 167, 173, 178, 179)

Caiff canllawiau a phwyntiau gweithredu eu cynhyrchu'n uniongyrchol o ganlyniad i'r broses fonitro fewnol sy'n cael ei goruchwyllo a'i harchwilio gan y Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg a'r Bwrdd Academaidd.